Cyllid & Tollau EM

Casglu Benthyciadau i Fyfyrwyr

Canllaw i gyflogwyr a chyflogeion i gynorthwyo wrth ateb ymholiadau cyffredin ar Fenthyciadau i Fyfyrwyr

Mae gennym ystod o wasanaethau i bobl sydd ag anableddau, gan gynnwys arweiniad ar ffurf Braille, clywedol a phrint bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras. Cysylltwch â ni drwy ffonio'n llinell gymorth os bydd angen y gwasanaethau hyn arnoch.

Ffoniwch 0845 302 1489 i dderbyn fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

CSL2 (Cymraeg)

Cynnwys

Beth yw Benthyciadau i Fyfyrwyr? 1

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) 1

Sut mae CThEM a Chyflogwyr yn casglu ad-daliadau benthyciad 1

Sut mae hyn yn gweithio o fewn Talu Wrth Ennill (TWE) 2

Mwy nag un gyflogaeth 2

Cadw Cofnodion 2

Newidiadau mewn cyflogaeth – Cyflogai 3

Newidiadau mewn cyflogaeth – Cyflogwr 3

Ad-daliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr wrth weithio dramor 4

Gwybodaeth ynglŷn â benthyciadau 4

Taliadau gwirfoddol 4

Telerau ac Amodau a Llog 4

Caledi 4

Gordaliadau 4

- Cyflogeion 5
- Cyflogwyr 5

Mwy o wybodaeth 6

- SLC 6
- CThEM 6
- Y rhyngrwyd 6
- Cwsmeriaid ag anghenion neilltuol 6
- Cwynion 6

Beth yw Benthyciadau i Fyfyrwyr?

Mae Benthyciadau i Fyfyrwyr yn rhan o gefnogaeth ariannol y Llywodraeth i fyfyrwyr.

Mae gwahanol fathau o ariannu ar gael ond mae'r daflen hon ond yn ymdrin ag un math penodol o Fenthyciad i Fyfyrwyr, sef Benthyciad i Fyfyrwyr Ad-daliad Amodol ar Incwm (ICR). Mae Cyllid a Thollau (CThEM) yn gyfrifol am gasglu ad-daliadau o Fenthyciadau i Fyfyrwyr ICR mewn achosion lle mae'r benthyciwr o fewn cyfundrefn dreth y DU ac nid bellach mewn addysg uwch. Nid yw gweithwyr o dramor sydd wedi astudio yn eu gwlad eu hunain yn rhan o'r cynllun hwn.

Mae cyflogwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gynorthwyo CThEM i gasglu ad-daliadau benthyciadau, sydd yn eu tro, yn cynorthwyo'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) gynnal a gweinyddu'r benthyciadau.

Er hynny, gwyddom fod cyflogeion yn aml yn mynd at gyflogwyr yn gofyn am wybodaeth nad yw wastad wrth law. Cynhyrchwyd y daflen hon i gynorthwyo cyflogwyr a chyflogeion gael yr atebion i'r ymholiadau mwyaf cyffredin y mae cyflogwyr yn eu cael gan gyflogeion sydd â Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)

Mae'r SLC yn gyfrifol am dalu'r benthyciadau, cadw manylion o gyfrifon y benthycwyr, cyfrifo llog, anfon datganiad bob blwyddyn ac ateb cwestiynau gan fenthycwyr. Mae gwefan ad-dalu'r SLC yn cynnwys mwy o wybodaeth ynglŷn â'r pynciau hyn i gyd, gan gynnwys enghraifft o ddatganiad. Ewch i **www.studentloanrepayment.co.uk**

Sut mae CThEM a Chyflogwyr yn casglu ad-daliadau benthyciad

Pan fo'r incwm perthnasol yn codi dros lefel penodol a elwir y trothwy, didynnir ad-daliadau benthyciad ar gyfradd o 9%:

- o dâl a chyflog, ynghyd â threth ac Yswiriant Gwladol gan y cyflogwr
- a/neu drwy Hunanasesiad (SA) i'r rheini sy'n cwblhau ffurflen dreth flynyddol.

Y trothwy blynyddol yw £15,000, ac mae'n gymwys waeth beth yw'r dull casglu.

Os hoffech wybod mwy ynglŷn â sut mae hyn yn gweithio ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am y daflen *Collection of Student Loans (CSL1)* o fewn y cyfleuster Chwilio.

Mae taflen ar gyfer Cyflogwyr *Collection of Student Loans a quick guide* hefyd ar gael. Ceir hyd iddi o fewn y cyfleuster Chwilio.

Sut mae hyn yn gweithio o fewn Talu Wrth Ennill (TWE)

Bydd CThEM yn hysbysu cyflogwr pryd i ddechrau a diweddu gwneud didyniadau Benthyciad i Fyfyrwyr. Os yw incwm yn uwch na'r trothwy, gwneir didyniadau ynghyd ag unrhyw dreth ac Yswiriant Gwladol. Fodd bynnag nid yw symiau Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gronnus, a bydd cyflogwr yn cyfrifo'r symiau ar wahân ar sail wythnos i wythnos neu fis i fis. Nid oes gan gyflogwyr yr hawl i ddechrau, diweddu neu amrywio didyniadau ar gais cyflogai. Os nad yw cyflogai'n cytuno â gweithrediadau'r cyflogwr dylent gysylltu â CThEM yn uniongyrchol. Gwelir manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen hon.

Mwy nag un gyflogaeth

Os oes gan gyflogai mwy nag un swydd, bydd bob cyflogwr yn defnyddio un trothwy blynyddol i gyfrifo didyniadau, ac ni fydd cyflogwyr unigol yn ymwybodol o unrhyw enillion eraill neu ddidyniadau Benthyciadau i Fyfyrwyr. Fodd bynnag, os oes gan gyflogai mwy nag un swydd gyda'r un cyflogwr, ac mae'r incwm wedi ei gyfuno at ddibenion Yswiriant Gwladol, bydd y cyflogwr ond yn defnyddio un terfyn trothwy. Os yw cyflogai hefyd yn cyflwyno ffurflen dreth Hunanasesiad flynyddol, dylent gyfeirio at daflen CSL1 am fwy o wybodaeth.

Cadw Cofnodion

Rhaid i gyflogwr gofnodi'r didyniadau a wnaethpwyd, talu'r symiau a ddidynnwyd i CThEM a rhoi slipiau talu, neu ryw dystiolaeth ysgrifenedig arall yn dangos y didyniadau Benthyciad i Fyfyrwyr a wnaethpwyd i'w cyflogeion.

Ar neu ychydig ar ôl bob 5 Ebrill rhaid i gyflogwr roi ffurflen P60 sy'n dangos cyfanswm y didyniadau Benthyciad i Fyfyrwyr a wnaethpwyd drwy gydol y flwyddyn i'w cyflogeion i gyd.

Dylai cyflogai gofio cadw eu slipiau talu a P60au i gyd. Bydd eu hangen os ydych am gysylltu â'r SLC i drafod ad-daliadau eich benthyciad.

Mae'r dogfennau hyn yn hynod o bwysig wrth i chi agosáu at ddiwedd ad-dalu eich benthyciad. Gellid eu defnyddio i gynorthwyo wrth benderfynu pryd y dylai ad-daliadau ddod i ben, drwy gael y gweddill cyfredol ar eich benthyciad. I wneud hyn, gallwch gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol, neu gallwch gyfrifo'ch gweddill eich hunan gan ddefnyddio'r cyfrifiannell ar-lein ar wefan ad-daliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ewch i wefan Ad-daliadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr **www.studentloanrepayment.co.uk** a dewiswch *How to use your Online Account*.

Mae wastad yn bwysig cadw gwybodaeth slip talu a P60, yn enwedig os oes angen i chi gwblhau ffurflen dreth flynyddol. Bydd y dogfennau hyn o gymorth hefyd os ydych am osgoi gordalu eich benthyciad.

Newidiadau mewn cyflogaeth – Cyflogai

Os, fel cyflogai, rydych wedi cael mwy nag un gyflogaeth yn y flwyddyn, ni allwch ddibynnu ar eich P60 yn unig fel tystiolaeth o ddidyniadau Benthyciad i Fyfyrwyr. Yn ogystal rhaid i chi ddefnyddio eich slipiau talu oddi wrth eich holl gyflogwyr blaenorol i gael y cyfanswm cywir am y flwyddyn. Mae hyn eto'n dangos pam fod angen i chi gadw ei'ch slipiau talu a'ch P60au **i gyd**.

Newidiadau mewn cyflogaeth – Cyflogwr

Fel arfer, pan fo cyflogai'n newid cyflogaeth rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn, dylai fod wedi cael P45 gan ei gyflogwr blaenorol. Bydd hon yn dweud wrth y cyflogwr newydd os dylid gwneud didyniadau Benthyciadau i Fyfyrwyr. Os nad oes ganddo P45, erbyn iddo gychwyn swydd newydd dylai ei gyflogwr **newydd** roi ffurflen P45 iddo i'w chwblhau. Os yw'r cyflogai newydd eisoes wrthi'n ad-dalu Benthyciad i Fyfyrwyr, dylai wneud cofnod ym mlwch 5 ar y P46. Mae hyn wedyn yn gweithredu fel awdurdod y cyflogwr i ddechrau gwneud didyniadau Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Os hoffech fwy o wybodaeth ynglŷn â chyfrifoldebau'r Cyflogwr, dylech gyfeirio at y llyfryn cymorth E17 Employers Collection of Student Loans. Ceir hyd i hwn ar y CD-ROM i Gyflogwyr neu ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewis *E17* o fewn y cyfleuster Chwilio.

Ad-daliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr wrth weithio dramor

Ni all y daflen hon ddelio â'r holl gwestiynau a all godi os yw'r sawl sy'n codi benthyciad i fyfyrwyr yn mynd i weithio dramor. Fodd bynnag, mae gan wefan CThEM adran cwestiynau a ofynnir yn aml, sy'n cynorthwyo cyflogwyr a cyflogeion. Ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am *Student Loan deductions - employee working abroad* o fewn y cyfleuster Chwilio.

Gwybodaeth ynglŷn â benthyciadau

Tra bod cyflogwyr yn didynnu ad-daliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr o gyflog, ni allant gael **unrhyw** wybodaeth ynglŷn â chyfrif SLC Benthyciad i Fyfyrwyr unigolyn. Mae'r benthyciad SLC yn gyfrinachol, ac ni rennir manylion gyda'r cyflogwr na CThEM.

Taliadau gwirfoddol

Gall cyflogai benderfynu gwneud taliadau gwirfoddol, ond bydd y rhain wastad **yn ychwanegol** i unrhyw symiau a ddidynnir gan gyflogwr. Mae gwybodaeth ar gael yn y daflen CSL1 a soniwyd amdani'n gynharach, ond os yw cyflogai'n dymuno trafod yr opsiwn hwn dylai gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol.

Telerau ac Amodau a Llog

Yr SLC sy'n gyfrifol am gynnal bob agwedd o gyfrif benthyciad unigolyn, gan gynnwys y cyfrifiad ac ychwanegu llog. Os dymunai cyflogai wybod mwy ynglŷn â hyn, dylai gysylltu â'r SLC.

Caledi

Os teimlai cyflogai fod ad-daliadau'r benthyciad yn achosi caledi rhaid iddo gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol.

Gordaliadau

Mae nifer o sefyllfaoedd a all arwain yn anochel at ordalu Benthyciad i Fyfyrwyr y cyflogai. Er enghraifft os yw cyflogai'n derbyn un taliad mawr o gyflog neu daliad bonws, bydd yn rhwym wrth ddidyniad Benthyciad i Fyfyrwyr o 9% ac mae'n bosib gallai'r didyniad glirio'r Benthyciad i Fyfyrwyr yn gyfan gwbl. Byddai cyflogwr yn hollol anymwybodol o hyn ac mewn amgylchiadau o'r fath dylai'r cyflogai gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol. Cyn belled y gall yr SLC adnabod a chadarnhau'r amgylchiadau, byddant yn ad-dalu'r symiau dan sylw.

O Ragfyr 2009, gall benthycwyr Benthyciad i Fyfyrwyr TWE ddewis tynnu'n ôl o ddidyniadau TWE Benthyciad i Fyfyrwyr a symud i drefniant Debyd Uniongyrchol yn ystod y 23 mis diwethaf o ad-dalu. Mae gwneud hyn yn golygu na fydd benthyciwr yn gordalu. Bydd yr SLC yn ceisio cysylltu â benthycwyr ychydig cyn yr amser hwn i gynnig a threfnu'r opsiwn hwn.

Pan nad yw benthyciwr yn dod i'r math hwn o gytundeb, anfonir Hysbysiad Atal gan CThEM i'r cyflogwr a fydd yna'n atal rhag gwneud didyniadau o dâl y cyflogai.

Os hoffai benthycwyr wybod mwy ynglŷn â'r cytundeb hwn a sut mae'n gweithio, dylent gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol.

Cyflogeion

Drwy fonitro didyniadau a chadw slipiau talu a P60au, gallwch gynorthwyo i leihau gordalu eich Benthyciad i Fyfyrwyr. Mae hyn yn enwedig o bwysig wrth i'r benthyciad ddod i ben. Fel y bu crybwyll eisoes, mae'r SLC wedi cyflwyno arweiniad a chyfleusterau newydd, gan gynnwys cyfrifiannell ar-lein, i gynorthwyo cyflogeion wrth gyfrifo gweddill eu benthyciad a gall hyn cynorthwyo i benderfynu pryd mae benthyciad yn debygol o gael ei dalu i ffwrdd, a gall hyn gynorthwyo wrth bendefynu pryd mae benthyciad yn debygol o gael ei glirio. Gall cyflogai gysylltu â'r SLC yn uniongyrchol neu fewngofnodi i safle ad-dalu'r SLC. Ewch i **www.studentloanrepayment.co.uk**

Cyflogwyr

Os sylwch eich bod wedi gwneud camgymeriad, ffoniwch Linell Gymorth y Cyflogwyr ar **0845 302 1489**.

Mwy o wybodaeth

SLC

Ar gyfer ymholiadau benthycwyr ynglŷn â gweinyddu fenthyciad, telerau benthyciad, llog neu ddatganiadau, dylai cyflogeion fynd i wefan Ad-dalu Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ewch i **www.studentloanrepayment.co.uk**

CThEM

Dylai cyflogeion sydd â chwestiynau ynglŷn â'u materion treth Benthyciad i Fyfyrwyr unigol, ffonio eu swyddfa Cyllid a Thollau. Mae manylion cysylltu swyddfa yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, a gellir cael hyd i'r rhif i ffonio ar wefan CThEM. Ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewiswch *Contact us.*

Y rhyngrwyd

Dylai cyflogeion fynd i **www.hmrc.gov.uk** a chwilio am *Student Loans – how they are repaid and collected* o fewn y cyfleuster Chwilio.

Dylai cyflogwyr fynd i **www.hmrc.gov.uk** a chwilio am *Collection of Student Loans* o fewn y cyfleuster Chwilio.

Cwsmeriaid ag anghenion neilltuol

Mae gennym ystod o wasanaethau i bobl sydd ag anableddau, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, clywedol ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras. Cysylltwch â ni drwy ffonio'r Llinell Gymorth os bydd angen y gwasanaethau hyn arnoch.

Cwynion

Bwriad Cyllid a Thollau EM (CThEM) yw rhoi'r gwasaneth gorau posib i chi bob amser. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am *Complaints factsheet* o fewn y cyfleuster Chwilio.

Os ydych am gysylltu â'r SLC ewch i **www.slc.co.uk** a dewiswch *Contact us*.

Mae'r daflen hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ei hysgrifennu ac mae ar gyfer arweiniad yn unig.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Yr Iaith Gymraeg
Ffoniwch **0845 302 1489** i dderbyn fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

Tîm Gwybodaeth Cwsmer
Rhagfyr 2009 © Hawlfraint y Goron 2009

CThEM 12/09 L21750

Cyllid & Tollau EM